

Adra

# Newyddlen yr Haf 2024


Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

## Cyfri'r Ceiniogau

Eisiau gwneud y mwyaf o'ch incwm?

**Ydych chi'n hawlio popeth sy'n ddyledus i chi?**

Cysylltwch â ni:
**0300 123 8084**
**ymholiadau@adra.co.uk**

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO


## Rhifau ffôn defnyddiol:

- **Adra** 0300 123 8084
- **Dim trydan?** 105 or 0800 001 5400
- **Dŵr Cymru** 0800 052 0130
- **Shelter Cymru** 0845 075 5005
- **Cyngor ar Bopeth** 08444 772020 or 08454 503064
- **Samariaid** 116 123
- **Argyfwng Nwy** 0800 111 999
- **Cyfoeth Naturiol Cymru** 0300 065 3000
- **Galw Gwynedd** 01766 771 000

# Edrych yn ôl ar fy mlwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr

Rwy'n hynod ddiolchgar am y gefnogaeth 'rwyf wedi ei dderbyn gan ein staff, cymunedau lleol, a'n tenantiaid. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn hanfodol i'm galluogi i symud ymlaen yn fy rôl fel Prif Weithredwr. Mae gwneud yn siŵr ein bod ni'n parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n tenantiaid wedi bod yn egwyddor arweiniol i mi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

### Wynebu heriau:

Mae nifer o heriau wedi dod i'r amlwg eleni, yn enwedig o ran addasu i ofynion newydd gan Lywodraeth Cymru, fel y Ddeddf Rhentu Cartrefi. Hefyd, rydym wedi gweld cyfraddau llog uwch, costau deunyddiau yn codi, a mwy o alw am waith trwsio. Mae'r ffactorau yma yn golygu bod pob cymdeithas tai, gan gynnwys ein cymdeithas ni, yn wynebu heriau sylweddol. Ond, trwy gydweithio ar draws y cwmni, rydym wedi gallu ymateb i'r heriau a pharhau i gynnig y gwerth gorau a sicrhau gwerth am arian i'n tenantiaid.

### Balchder:

Rwy'n ymfalchïo'n fawr yn y gwasanaeth a ddarparwn i'n cymuned a'n tenantiaid. Rwy'n mynd i ymweld â phob tîm, yn enwedig y rhai ar y rheng flaen, a gwelaf y balchder y mae pawb yn ei gymryd yn eu gwaith a'u hymroddiad i weithio i Adra. Wrth inni barhau i dyfu, mae'n bwysig cadw'r ysbryd yma yn fyw. Rwyf hefyd yn falch ein bod yn parhau i ymgysylltu â chi, ein tenantiaid, i gasglu eich adborth drwy gydol y flwyddyn gyda phrosiect o'r enw 'Eich Llais'. Mae gennym ddiweddariad ar sut mae hyn yn mynd ymlaen (ewch i dudalen 6).

### Cynllun Corfforaethol:

Mae ein Cynllun Corfforaethol wedi rhoi cyfle i ni gamu 'nol a sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Mae'n amlinellu sut rydym yn cynllunio i fuddsoddi yn ein stoc bresennol, cydymffurfio â rheoliadau hen a newydd a chydweithio gyda thenantiaid i sicrhau llwyddiant. Mae gweithio gyda'n partneriaid yn hanfodol er mwyn i ni sicrhau bod ansawdd ein gwaith yn cyrraedd y safon uchaf posib.

Un o'n blaenoriaethau yw creu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu a rhoi cyfle i chi rannu barn a syniadau. Mi fyddwn yn gweithio ar Gynllun Corfforaethol newydd dros weddill y flwyddyn ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2025 i Fawrth 2030. Dros y misoedd nesaf byddwn yn gofyn am eich barn ar gyfeiriad Adra yn y dyfodol a'n prif flaenoriaethau. Cadwch lygad am fanylion y cyfleoedd ymgysylltu – rydym yn awyddus i glywed eich barn.

### Ystod eang o wasanaethau:

Rydym yn darparu ystod eang o wasanaethau, yn cynnwys buddsoddi yn eich cartrefi, mesurau diogelwch, rhent cystadleuol a gwerth am arian. Mae gennym nifer o gynlluniau i drawsnewid bywydau, fel Tŷ Gwyrddfai, prentisiaethau ac Academi Adra. Un agwedd yn unig yw darparu cartrefi; rydym yn buddsoddi mwy yn ein cymunedau a'n pobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth gywir ac yn cael cyfle i gyflawni eu potensial. Mae sylw mawr ar sicrhau lles ein trigolion.

Diolch i chi gyd am flwyddyn arbennig.

Cofion cynnes,
**Iwan**



# Safon Ansawdd Tai Cymru – Diweddariad

Yn ein cylchlythyr diwethaf, cawsoch wybod am y Safon Ansawdd Tai Cymru ddiwygiedig, sydd wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru i wella safonau cartrefi ar draws Cymru.



Er mwyn cwrdd â'r Safon, mae angen i'ch cartref fod:

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel.
- Yn ynni effeithlon ac yn gyfeillgar i'r amgylchedd.
- Bod yna gegin fodern ac ardaloedd cyfleustodau.
- Ystafelloedd ymolchi modern.
- Yn gyffyrddus ac yn addas ar gyfer y tenantiaid.
- Bod yna ardd, yn ddelfrydol.
- Bod yna fannau tu allan dymunol, yn ddelfrydol

Byddwn yn cynllunio cyfres o sesiynau gwybodaeth yn hwyrach yn y flwyddyn er mwyn esbonio'r Safonau yn fanylach a beth fydd y Safonau yn ei olygu i chi.

# Yn Gweu o'r Galon

## Ymunwch gyda chriw gweu talentog Cysgod y Coleg yn y Bala!

Diolch o galon i Aelodau Clwb Gweu Cysgod y Coleg sy'n dod at ei gilydd bob pythefnos i greu eitemau hyfryd i fabis ifanc a blancedi i gartrefi henoed lleol.

Mae'n gymuned dalentog iawn draw yn y Bala.

Mae croeso i unrhyw un ymuno gyda'r clwb – nid oes angen bod yn denant.



### Datblygiadau Cyffrous yn Nhŷ Gwyrddfai

# Lansiad yr Hwb Sgiliau a Hyfforddi









Rydym yn falch iawn o gael rhannu newyddion cyffrous am ein datblygiadau diweddar yn Nhŷ Gwyrddfai, ein hwb ddatgarboneiddio ym Mhenygroes. Mi gynhaliwyd diwrnod agored yno ar Fehefin 14eg, gan lansio partneriaeth gyda Saint-Gobain, fydd yn cynnig hyfforddiant adeiladu ac ôl-osod o fewn yr hwb. Mae'r prosiect arloesol hwn yn bartneriaeth rhwng Adra, Saint-Gobain UK, Prifysgol Bangor a CIST Busnes@LlandrilloMenai, gyda'r bwriad o ateb yr angen mawr am sgiliau adeiladu ac ôl-osod cynaliadwy. Bydd cwmnïau eraill sy'n noddi'r hwb yn lansio eu hyfforddiant yn fuan.

## Budd i'r Gymuned:

Mae disgwyl i'r cynllun gael effaith sylweddol ar ein cymunedau. Bydd ôl-osod ein cartrefi presennol er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni yn lleihau costau gwresogi ond hefyd o fudd i les ein trigolion. Gyda thros 7,000 o gartrefi i'w cynnal ac ôl-osod, byddwn yn elwa'n sylweddol o weithlu sydd wedi'i huwch-sgilio ac sydd wedi ei hyfforddi yn Nhŷ Gwyrddfai. Mae'r prosiect yn amlygu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol a gwella ansawdd bywyd ein trigolion.

## Cyfleusterau Cynadledda:

Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi fod ein hystafell gynhadledd, gyda lle i hyd at 100 o bobl, ar gael ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd amrywiol, fydd yn cefnogi anghenion addysgiadol a phroffesiynol ein cymunedau.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch efo ni ar 0300 123 8084 neu ewch i'n gwefan.**

**Edrychwn ymlaen at eich gweld chi yno!**

# Diweddariad Datblygiad Tai: Llwyddiannau a Chynlluniau'r Dyfodol

Rydym yn falch iawn o allu rhannu rhai cerrig milltir arwyddocaol a chynlluniau ar ddyfodol rhai o'n prosiectau datblygiadau tai.

### Cyflawniadau 2023/2024:

Rydym yn hynod o falch o gyhoeddi ein bod wedi cwblhau 250 o dai dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r cyflawniad yma yn nodi cam arwyddocaol iawn yn ein hymrwymiad i ddarparu cartrefi o safon ar gyfer ein cymunedau.

### Targed a Chynlluniau 2024/2025:

Wrth edrych ymlaen, rydym wedi gosod targed uchelgeisiol i gwblhau 313 o dai yn y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ehangu a gwella ein cyflenwad o dai.






## Dewch i ddweud helo!

Pwy alwodd draw i weld Nicola a Richard yn Sioe Meirion yn Harlech y llynedd? Byddwn yn mynd draw i'r sioe amaethyddol hynod boblogaidd yma eto eleni.

**Pryd? Dydd Mercher, 21 Awst**

**Lle? Fferm Rhug, Corwen**

Gobeithio y gwelwn ni chi yna!

# Eich Llais Your Voice

**Mae dros 12 mis ers i ni gyflwyno Eich Llais, sy'n nodi sut rydym yn ymgynghori ac yn ymgysylltu efo chi i glywed eich barn am ein gwasanaethau a sut y gallwch chi gymryd rhan yn ein gwaith. Rydym wedi gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys panel cwsmeriaid, sgyrsiau ardal, ymweliadau ystâd, ymgynghoriadau ar-lein a holiaduron boddhad tenantiaid.**

Diolch i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein gwaith. Mae 450 ohonoch wedi cofrestru ar gyfer ein panel cwsmeriaid ac yn cymryd rhan mewn arolygon ar-lein neu bost yn rheolaidd. Mae 2,456 ohonoch wedi ymateb i arolygon ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys sut rydych am gyfathrebu efo ni, taliadau gwasanaeth, lleithder a llwydni, defnydd o'r Gymraeg, gwerth am arian, gosod rhenti blynyddol, adroddiadau hunanwerthuso blynyddol, polisi lifftiau, porth cwsmeriaid a'ch cymuned fel lle i fyw. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn ein hymgynghoriadau yn cael adborth. Rydym hefyd yn gofyn am farn ar y cyfleoedd i gymryd rhan yn ein gwaith. O'r ymatebion hynny roedd 81% yn fodlon neu'n fodlon iawn gyda'r cyfleoedd i gymryd rhan.

Rydym wedi cyfarfod llawer ohonoch wyneb yn wyneb fel rhan o'n teithiau stad yn ardaloedd Bwcle, Y Bala, Y Bermo, Pen Llŷn, Bangor, Pwllheli, Caernarfon a Llanllyfni, gyda mwy o ymweliadau stadau wedi'u cynllunio o amgylch Bangor, Bethesda, Caernarfon, Llanberis ac Abergele yn y misoedd nesaf.

Rydym hefyd wedi cynnal sgyrsiau ardal ym Methesda a Phwllheli, i roi'r cyfle i chi ddod i siarad efo ni am faterion sy'n bwysig i chi. Ein bwriad ydi cynnal rhagor o sgyrsiau Ardal yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

**Ac mae eich adborth yn bwysig iawn:**

- Cododd rhai ohonoch bryderon am y gwasanaeth glanhau. O ganlyniad, mae gennym cwmni glanhau newydd.
- Roedd rhai ohonoch eisiau gwell cyfathrebu gennym ni yn dilyn archwiliadau yn eich cartref. Rydym wedi gwneud newidiadau a byddwch yn cael adborth uniongyrchol ar ôl yr arolygiadau.
- Fe wnaethoch chi hefyd ofyn am fwy o wybodaeth am ble mae eich arian rhent yn mynd. Mae manylion am hyn i'w weld ar dudalen 10.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed, ar bob lefel. Mae Eich Llais hefyd wedi ein galluogi i gyrraedd gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffyrdd gwahanol ac wedi sicrhau ein bod yn cael adborth gan gynrychiolaeth fwy o'n cymunedau. Mae ein dull newydd yn golygu bod mwy o gyfleoedd i chi gymryd rhan yn ein gwaith.

## Cadwch lygad am gyfleoedd newydd i gymryd rhan.

# Diweddariad y Cynlluniau

Mae gennym lawer o raglenni gwaith i wella eich cartrefi. Cymerwch olwg ar peth o'r gwaith sydd wedi digwydd yn ddiweddar:

## Diweddariadau ar gyfer Tai Morfa Garreg

Mae'r gwaith adnewyddu allanol ar 18 o dai ym Morfa Garreg, Pwllheli, bron wedi'i gwblhau! Dyma gip sydyn ar yr hyn sydd wedi ei wneud yna:

- Newid ffenestri gyda rhai PVCU 'casement'
- Peipiau dŵr PVCU wedi'u hadnewyddu, ffasgia, bondo, awyryddion bondo, cwteri a staciau
- Ychwanegwyd dash rendrad wedi'i inswleiddio 100mm o drwch i'r waliau
- Wedi gosod drysau blaen a chefn perfformiad uchel



## Diweddaru Fflatiau Ffordd Llanbeblig



Mae'r gwaith adnewyddu allanol ar y pedwar bloc o fflatiau ar Ffordd Llanbeblig, Caernarfon, wedi'i gwblhau! Dyma grynodeb o beth wnaethon ni:

- Wedi tynnu hen gladin carreg
- Inswleiddiad wal allanol newydd wedi'i osod (EWI)
- Toeau fflat wedi'u diweddaru ar adeiladau a storfeydd
- Gwell llwybrau a systemau draenio

## Gwelliannau yn Parhau yn Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy

Mae'r gwaith o adnewyddu'r chwe eiddo yn Lawnt y Plas, Dinas Mawddwy, ar y gweill ar hyn o bryd! Dyma beth sy'n cael ei wneud:

- Gosod PV solar a storfa batri
- Ail-doi
- Gwaith ar simnai
- Ychwanegu inswleiddio waliau allanol (EWI)



# Cwrdd ag Abi: Eich Arbenigwr Arbed Ynni!

**C: Helo Abi, pryd wnes di gychwyn yn y rôl?**

A: Dw i wedi bod yn y rôl ers Ionawr ac mae hi wedi bod yn 6 mis gwerthfawr hyd yma!

**C: O lle ti'n gweithio?**

A: Dw i'n gweithio ar draws Gwynedd gyfan. 'Dw i wrth fy modd yn teithio ar draws y sir i gwrdd â'n tenantiaid gwych.

**C: Beth yn union yw gwaith Warden Ynni?**

A: 'Dw i'n cynnig cefnogaeth a chyngor ymarferol gyda biliau ynni, yn cynnig awgrymiadau arbed ynni a chefnogi tenantiaid syn wynebu tlodi tanwydd yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae fy rôl yn cael ei rannu rhwng Adra a Chyngor Gwynedd, felly dw i'n gweld amrywiaeth mawr o faterion ac anghenion.

**C: Beth wyt ti fwyaf balch ohono ers cychwyn yn y rôl newydd?**

A: Mae hi wedi bod yn wych cael cefnogi pobl oedd ddim yn ymwybodol fod cymorth ar gael iddyn nhw. Dw i wrth fy modd yn helpu pobl i arbed arian.

**C: Dyweda ffaith ddifyr amdanat:**

A: Roeddwn yn ddawnswraig ac yn cystadlu am 15 mlynedd. Mi nes i hyd yn oed ymddangos ar raglen 'Ysgol Ddawns Anti Karen' ar S4C.

**C: Sut all tenantiaid gysylltu gyda chdi os oes angen cefnogaeth arnyn nhw?**

A: Gallant gysylltu efo fi drwy ffonio Adra ar **0300 123 8084** a gofyn i gael siarad gyda'r Warden Ynni, neu drwy e-bostio: **cymunedol@adra.co.uk**



# Cofio am ein cydweithiwr annwyl, Dylan Edwin

Cymerodd dros 30 o staff ran mewn taith gerdded o'n swyddfa ym Mharc Menai i Benygroes, gan gerdded drwy Gaernarfon, Dinas, a Groeslon i godi arian ar gyfer Cymdeithas Gleifion Arennol Ysbyty Gwynedd er cof am Dylan Edwin.

Rydym wedi bod yn cefnogi'r elusen hon ers blwyddyn ac rydym yn edrych ymlaen i barhau am flwyddyn arall. Roedd yn anrhydedd cael teulu Dylan yn ymuno efo ni ar y daith.

Dywedodd Heledd Owens, ein Pennaeth Cyllid: "Rydym wrth ein bodd gyda'r cyfranogiad a'r gefnogaeth i'r achos hwn sydd mor agos at ein calonnau. Gosodwyd targed o £1,000 ac rydym wedi codi £2,275 hyd yn hyn— ymdrech aruthrol. Diolch i bawb a gerddodd neu a redodd y daith 15 milltir."



Academi Adra

# Darparu Cyfleoedd i Bobl Leol

Rydym yn falch o gyhoeddi fod Daniella a Hanna wedi cwblhau eu lleoliad gwaith 16 wythnos gyda thâl gydag Academi Adra. Mi gychwynnodd eu siwrnai ar ôl cwblhau cwrs gweinyddol am bythefnos. Roedd hyn yn cynnwys wythnos o hyfforddiant ac wythnos o brofiad gwaith ymarferol yn ein swyddfeydd. Roedd y profiad yma wedi cynnig blas o weithio mewn amgylchfyd swyddfa go iawn.

Ychwanegodd Daniella, sydd ar leoliad gwaith yn Nhŷ Gwyrddfai,

**"Mae'r lleoliad gwaith gydag Adra wedi bod yn arbennig iawn. Mae'r hyfforddiant a'r profiad ymarferol wedi ehangu fy sgiliau ond hefyd rhoi hyder i mi mewn lleoliad proffesiynol. 'Dw i'n ddiolchgar iawn am y cyfle i ddysgu a datblygu gyda thîm sydd mor gefnogol".**





Mae Academi Adra yn parhau i gael effaith sylweddol:

- 125 o bobl wedi cymryd rhan mewn cyrsiau Academi Adra
- 162 o bobl wedi cael cefnogaeth i ddod o hyd i hyfforddiant a gwaith drwy'r Academi.

Rydym yn falch iawn o lwyddiant ein rhaglenni ac yn edrych ymlaen at gael croesawu mwy o unigolion yn y dyfodol.






Cryfhau Cysylltiadau rhwng Cymru a Chernyw

# Adra a GISDA yn cydweithio

GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

Mae Adra, mewn cydweithrediad â GISDA ac wedi'i gefnogi gan Raglen Taith Llywodraeth Cymru, yn falch o gyhoeddi partneriaeth newydd i feithrin cysylltiadau rhwng Gwynedd a Chernyw. Mae'r fenter hon yn canolbwyntio ar effaith twristiaeth ar iaith, diwylliant, a fforddiadwyedd tai i bobl ifanc yn y ddwy ranbarth.

Yn ystod ein taith ddiweddar i Gernyw, buom yn ymgysylltu â gwahanol sefydliadau, gan gynnwys St. Petrocs, Harbour Housing, 'The House,' Swyddfa Iaith Cernyw, a Chyngor Cernyw, i gryfhau'r cysylltiadau hyn.

**Rhannodd Gemma Owen, Rheolwr Cynorthwyol Tai Fforddiadwy Adra:**

"Roedd yn fraint cael gwahoddiad i Gernyw i weld yr holl waith anhygoel sy'n cael ei wneud. Cawsom ein synnu gan ba mor debyg yw Cernyw i ogledd Cymru o ran y tirwedd a'r heriau mae nhw'n wynebu."

**Rydym yn ymrwymo i gynnal a thyfu'r cysylltiadau hyn er budd y ddwy gymuned.**

# Ble mae eich arian rhent yn mynd

Un o'r darnau o adborth rydym wedi'i dderbyn yw bod rhai ohonoch eisiau gwybod sut mae eich arian rhent yn cael ei ddefnyddio.

Os edrychwn ar rent cyfartalog o **£111.78** yr wythnos, dyma sut mae'n cael ei ddefnyddio.

- Mae **£22.36** yn mynd ar atgyweirio a chynnal a chadw eich eiddo.
- Mae **£39.12** yn mynd ar y rhaglen fuddsoddi – adnewyddu ceginau newydd, toeau, ffenestri ac ati.
- **£8.94** ar reoli asedau, fel paratoi ar gyfer gwaith buddsoddi, rheoli draenio ac ati.
- **£15.37** ar reolaeth Adra ar gyfer gwasanaethau i gefnogi tenantiaid.
- **£12.58** ar gostau landlordiaid – casglu rhent, gosod cartrefi, gwasanaethau cymdogaeth a gwasanaethau cynghori.
- **£13.41** tuag at gostau talu benthyciadau fel rhan o'n buddsoddiad o £121 miliwn i ddod â chartrefi i Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Diolch am yr adborth. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn ein hadroddiad blynyddol sydd i'w weld ar ein gwefan: **adra.co.uk**